

Gwybodaeth ar gyfer Defnyddwyr, yn Unigolion ac yn Grwpiau

Amserau sydd ar gael

- Dydd Llun i Ddydd Gwener ar gyfer defnydd rheolaidd; Dydd Sadwrn ar gyfer defnydd achlysurol (mae'r Canolfan ar gau Ddydd Sul)
- Y cyntaf i'r felin gaiff falu, a gall defnyddwyr rheolaidd neilltuo bloc o sesiynau

Gweithgareddau/grwpiau sy'n gymwys

Mae croeso i'r gweithgareddau a'r grwpiau canlynol:

- Unigolion
- Grwpiau cymunedol
- Clybiau a chymdeithasau
- Mudiadau gwirfoddol
- Busnesau
- Digwyddiadau cymdeithasol
- Partion plant
- Boreau coffi
- Grwpiau rhieni a'u plant
- Digwyddiadau hyfforddi
- Cyfarfodydd

Disgwyllr i grwpiau

- Gadw'r cyfleusterau fel y'u cawsant (gan adael i ni wybod am unrhyw broblemau)
- Gytuno i fod yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir gan y grŵp
- Sicrhau yswiriant addas (siaradwch wrth y rheolwr archebu am ragor o fanylion)
- Gydymffurfio â holl reolau'r Canolfan, gan gynnwys polisïau lechyd a Diogelwch a Gwarchod
- Defnyddiwch dim ond y cyfleusterau yr ydych wedi archebu, yn ystod yr adegau yr ydych wedi bwcio nhw (os ydych yn defnyddio cyfleusterau ychwanegol, neu am fwy o amser, bydd rhaid i chi dalu ar eu cyfer); gwnewch yn siŵr bod chi'n cynnwys amser i osod a clirio ar gyfer eich gweithgaredd wrth archebu

Gweithgareddau NI chaniateir

Oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol a Dogfen Ymddiriedolaeth perchennog yr adeilad (Eglwys Bedyddwyr Penrallt), ni chaniateir y gweithgareddau canlynol ar y safle:

- Gwerthu neu yfed alcohol
- Hapchwarae (caniateir rafflau, ond nid loteriau sydd angen trwydded)
- Hyrwyddo unrhyw grefydd neu fyd barn ar wahân i'r ffydd Gristnogol
- Gweithgareddau anfoesol neu anghyfreithlon
- Gwaherddir ysmegu y tu mewn i'r adeilad (ac os byddwch chi'n ysmegu tu allan, fasen ni'n gofyn i chi sefyll i ffwrdd o'r drysau)
- Gweithgareddau eraill y gall y perchennog eu hystyried yn anaddas

Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â rheolwr archebu'r Canolfan (manylion ar waelod y dudalen nesaf).

Ffloedd Archebion

Sylwch bydd y tâl bob amser yn cael ei dalgrynnu i fyny at yr awr llawn (e.e. bydd 2.5 awr yn cyfrif fel 3 awr o safbwynt talu).

- Grwpiau Cymunedol yw grwpiau a chlybiau sydd yn annog ac yn cefnogi bywyd cymunedol ym Mangor ac Arfon trwy redeg gweithgareddau sy'n agored i bawb
- Digwyddiadau preifat yw archebion lle mae mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai a wahoddir gan y trefnydd
- Fydd rheolwr a phwyllgor y Canolfan yn penderfynu os bydd y gostwng cymunedol ar gael

Y tâl sylfaenol i archebu'r neuadd yw £15/awr. Ar gyfer grwpiau cymuned, codir tâl gostyngol o £5/awr o'r ail awr o bob sesiwn ymlaen, ond codir y tâl sylfaenol trwy'r sesiwn i gyd ar gyfer grwpiau preifat. Croeso i chi ddefnyddio'r gegin i wneud paned (dewch â'ch te, coffi, llefrith ayyb. eich hunain); bydd tal ychwanegol o £3/awr (£2/awr o'r ail awr i grwpiau cymunedol) i ddefnyddio'r gegin yn fwy.

Y tâl am ein ystafell cyfarfod bach, yr Ystafell Twrgwyn, ydy £7/awr, neu £3/awr o'r ail awr i grwpiau cymunedol. Os does dim gweithgaredd yn y neuadd ar y pryd, croeso i chi ddefnyddio'r gegin (fel nodir uchod) wrth i chi archebu'r Ystafell Twrgwyn.

Fel arfer, dim ond y neuadd, cegin a'r Ystafell Twrgwyn sydd ar gael i'w logi. Mewn rhai achlysuron, bydd posibilrwydd o logi rhannu eraill yr adeilad; cysylltwch â rheolwr y Canolfan i'w trafod.

Canslo: Gall archeb yn cael ei ganslo hyd at hanner dydd ar y diwrnod gwaith blaenorol yn ddi-dâl; fel arall bydd y ffi llogi llawn yn cael ei godi (oni bai bod y rheolwr archebu yn penderfynu i'w lleihau). Mewn achos argyfwng mae posibilrwydd bydd rhaid i ni gau'r Canolfan neu ganslo archebion ar fyr rhybudd, er bydden ni'n ceisio rhoi i chi gymaint o rybudd â phosibl yn yr achos hon.

Tallad

- Bydd defnyddwyr rheolaidd yn talu bob mis neu mewn rhandaliadau addas
- Mae taliadau ar gyfer archebion unigol yn ddyledus ar ddiwrnod yr archeb, neu o fewn 7 diwrnod wedyn
- Gallwch talu trwy arian parod, siec neu BACS
- Mae anfonebau a talebau ar gael ar gais

Ffurflenni archebu lle

- Mae'r rhain ar gael oddi wrth reolwr archebu'r Canolfan (gweler y cyfeiriad isod)
- Mae angen ffurflen archebu ar gyfer pob archeb (gyda ffurflen ar wahân ar gyfer pob cyfuniad gwahanol o ystafelloedd) a chadarnhad o archeb yn gofyn am dderbyn ffurflen wedi'i chwblhau, ynghyd â phrawf yswiriant addas, a chymeradwyaeth gan bwyllgor y Canolfan

Gweld y cyfleusterau

Os hoffech chi weld y cyfleusterau cyn i chi archebu, cysylltwch â rheolwr y Canolfan i drefnu amser addas i chi ymweld â ni.